Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

# PECYN CYMORTH CYNRYCHIOLWYR RCN CYMRU

Fersiwn 2



Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales

Royal College of Nursing
RCN REP

# CYFLWYNIAD

Er mwyn i nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd barhau i ddarparu gofal diogel a thosturiol, mae aelodau'r RCN, cynrychiolwyr, ymgyrchwyr a staff wedi gweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd i lobïo Llywodraeth Cymru i gyflwyno Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, y cyntaf o'i math yn Ewrop.

Nawr mae angen i ni adeiladu ar y llwyddiant hwn drwy weithio mewn partneriaeth â GIG Cymru i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Mae gennym rôl i'w chwarae hefyd o ran sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei hymestyn, a bydd angen i ni barhau i weithio gyda'n gilydd yng ngham nesaf ein hymgyrch.

Pwrpas y pecyn cymorth hwn yw darparu adnodd i holl Gynrychiolwyr RCN Cymru i gefnogi gweithgarwch yn eu hardal. Hoffem annog cynrychiolwyr RCN Cymru i weithio gyda chynrychiolwyr RCN eraill yn eich ardal, eich swyddogion goruchwylio a staff RCN eraill, i sicrhau ein bod ni, fel ymgyrchwyr, yn gweithio'n strategol ac yn effeithiol gyda'n gilydd.

Nid yw'r pecyn cymorth hwn yn rhagnodol; fe'i cynlluniwyd i gefnogi eich syniadau ynghylch y ffordd orau o ymroi â'r agenda hwn yn eich sefydliadau eich hun.

Mae RCN Cymru yn cydnabod ymrwymiad ac ymroddiad yr holl gynrychiolwyr yng Nghymru, sy'n dylanwadu'n lleol ac yn genedlaethol i greu effaith gadarnhaol ac i wella bywydau gwaith ein haelodau a'r nyrsys gofal sy'n darparu gwasanaethau i'r cleifion maen nhw'n gofalu amdanynt.

## SUT I DDEFNYDDIO'R PECYN CYMORTH HWN

- Ceisiwch gyfarwyddo eich hun â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Llawlyfr Gweithredu'r GIG ar y Canllawiau Statudol (ceir dolenni i'r dogfennau hyn yn yr adran ' Ble i ddod o hyd i ragor o wybodaeth ' yn y pecyn cymorth hwn)
- Meddyliwch am y cwestiynau rydych chi angen eu gofyn i'ch Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth.
- Ewch i'ch Fforwm Partneriaeth Lleol a'r grŵp cynllunio lefelau staff nyrsio yn rheolaidd
- Ceisiwch gyfarfod yn rheolaidd gydag Arweinydd Lefelau Staff Nyrsio eich Bwrdd Iechyd neu gydag unigolyn dynodedig i drafod cynnydd.
- Siaradwch gydag aelodau'r RCN ar y wardiau
- Ceisiwch gerdded o amgylch wardiau meddygol a llawfeddygol acíwt i oedolion, lle mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 ar waith ar hyn o bryd * a nodwch a yw gwybodaeth am y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn cael ei harddangos yn glir i'r cyhoedd ei gweld.* (Adran 25b a c, Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru), 2016)
- Rhowch adborth ar eich gwybodaeth i'ch cydweithwyr cynrychioliadol, eich cangen, eich swyddog goruchwylio, yn eich cyfarfod rhwydwaith ac i Arweinydd Lefelau Staff eich Bwrdd Iechyd.
- Ceisiwch weithio mewn partneriaeth â'r Undebau Llafur eraill, arweinwyr lefelau staff nyrsio y Bwrdd Iechyd, Uwch-Nyrsys, Prif Nyrsys Wardiau ac aelodau.

## SUT I GAEL Y NEWYDDION DIWEDDARAF

- Dilynwch RCN Wales ar Twitter @RCNWales
- Darllenwch y newyddion diweddaraf ar wefan RCN i ddeall Lefelau Staff Nyrsio o safbwynt RCN UK
- Darllenwch Gylchlythyr cynrychiolwyr RCN Cymru
- Ceisiwch gymryd rhan yn yr ymgyrch gofal diogel ac effeithiol

Mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae o ran ceisio cefnogi ein haelodau gyda'r maes gwaith hollbwysig hwn.

Mae angen i holl stiwardiaid, cynrychiolwyr diogelwch a chynrychiolwyr dysgu, ymgyrchwyr a staff RCN Cymru weithio gyda'i gilydd fel tîm i sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

Bydd angen i ni weithio gyda'n gilydd hefyd i barhau i lobïo Llywodraeth Cymru am estyniadau i Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru), 2016.

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

Royal College of Nursing RCN REP

# SICRHAU LEFELAU STAFF DIOGEL

## UWCHGYFEIRIO

- Ydy staff yn gwybod sut i uwchgyfeirio unrhyw bryderon ynghylch lefelau staff/gweithredu'r Ddeddf?
- Ydy staff yn ymwybodol o unigolyn dynodedig/arweinydd d y BIP sy'n gyfrifol am lefelau staff diogel?
- Ceisiwch annog staff i gofnodi pryderon ar E-Datix
- Defnyddiwch gyhoeddiad RCN ‘Raising Concerns: A guide for RCN representatives
- Ceisiwch hyfforddi staff ar sut y gallant drafod materion gydag uwch reolwyr
- Ceisiwch godi pryderon aelodau yn y Fforwm Datblygu Lleol / /cyfarfod cynllunio Nyrsys/cyfarfod

## GWYBODAETH

- Ydy nifer y nyrsys sydd ar ddyletswydd yn cael eu dangos yn glir?
- Ydy’r tîm nyrsio’n cyfrannu at gyfrifo’r lefelau staff nyrsio?
- Sut mae nyrsys yn teimlo am y lefelau staff yn eu hardal, ac ydyn nhw’n hapus i rannu eu profiadau?
- Faint o swyddi gwag sydd yn yr ardal?
- Beth ydy’r gyfran o staff dros dro sydd ar sifft?
- Oes aelodau sy’n fodlon dod yn hyrwyddwyr/e-ymgyrchwyr lefelau staff?

## IECHYD A LLES

- Ceisiwch annog staff i ofalu ar ôl eu hunain ac i fod yn garedig iddyn nhw eu hunain
- Gweithiwch gydag aelodau a rheolwyr i eiriol yr ymgyrch ‘Rest, rehydrate, refuel’
- Cefnogwch a hyfforddwch staff i gael eu grymuso i sicrhau eu bod nhw’n cymryd seibiannau rheolaidd, a’u bod nhw’n gorffen gwaith ar amser
- Tynnwch sylw at y gefnogaeth sydd ar gael i staff drwy’r gwasanaeth llesiant cyflogwyr
- Tynnwch sylw at y gefnogaeth sydd ar gael i aelodau drwy’r gwasanaethau Cymorth i Aelodau (MSS)
- Gwnewch yn siŵr bod staff yn ymwybodol o bolisïau’r Bwrdd Iechyd sy’n ystyried gweithio’n hyblyg; addasiadau rhesymol a’r gefnogaeth a roddir i reoli presenoldeb yn y gwaith

Royal College of Nursing RCN REP

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

# DYLANWADU STRATEGOL
## Beth i'w drafod gydag Adran y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

- Faint o ddechreuwyr ac ymadawyr sydd ar wardiau meddygol acíwt i oedolion lle mae'r Ddeddf lefelau staff nyrsio ar waith? Beth yw'r cyfraddau trosiant staff? Sut mae hynny'n cymharu gyda wardiau lle nad yw'r Ddeddf ar waith?
- Beth yw'r polisi/dull gweithredu wrth gynnig bod staff yn ymddeol neu'n dychwelyd contractau? Beth yw'r niferoedd? Pa fandiau cyflog sy'n cael eu cynnig? Ydy'r polisi/dull yn cael ei gymhwyso'n deg?
- Staff asiantaeth: faint o sifftiau ar wardiau sy'n rhwym wrth y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio sydd wedi'u llenwi? Beth ydy'r gost ariannol?
- Staff asiantaeth: faint o'r sifftiau ar wardiau NAD YDYNT yn dod o dan Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 sydd wedi'u llenwi? Beth ydy'r gost ariannol?
- Sawl cais am weithio hyblyg a dderbyniwyd a faint sydd wedi cael eu cymeradwyo?
- Faint o geisiadau am addasiadau rhesymol sy'n cael eu cyflwyno? Faint o'r ceisiadau hyn sy'n cael eu cefnogi?
- Faint o wrandawiadau ac achwyniadau disgyblu sy'n gysylltiedig â Lefelau Staff?
- Beth yw cynllun recriwtio'r gweithlu? Sut mae hyn yn datblygu?

**Pwyllgorau diogelwch** – ydy Lefelau Staff yn eitem sefydlog ar yr agenda? Ydy Deddf Lefelau Staff Nyrsio Cymru (2016) yn cael ei adlewyrchu?

**Adrodd ar Datix** - nodwch unrhyw fannau problemus ble y gallai aelodau RCN fod angen cefnogaeth gan RCN. Gofynnwch pa gynlluniau sydd gan y Bwrdd Iechyd i gyfeirio at y pryderon a godir.

**Methiannau agos** – ydy'r rhain yn cael eu hadrodd hefyd?

**Pryderon ynghylch Diogelwch Cleifion** – sut y cyfeirir at y rhain?

# Beth ydych chi'n ofyn wrth aelodau?

- Beth ydy'r ddau beth mwyaf positif am y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio?
- Beth ydy'r ddwy her fwyaf heriol?
- Beth ydy'r ddau beth fuasech chi'n canolbwyntio arnyn nhw i gyfeirio at yr heriau hyn?

Gallech chi ddewis gofyn cwestiynau gwahanol, ar sail eich gwybodaeth leol o'ch sefydliad.

Rhannwch yr wybodaeth rydych yn ei chasglu â'ch Prif Hyrwyddwr Lefelau Staff Nyrsio, eich cangen a'ch Swyddog Goruchwylio

# Ble i ddod o hyd i ragor o wybodaeth

## RCN UK – SAFE AND EFFECTIVE CARE CAMPAIGN

Ewch i dudalennau gwe RCN UK i gael y newyddion diweddaraf ar weithgarwch yr ymgyrch.
www.rcn.org.uk/employment-and-pay/safe-staffing

## TUDALENNAU GWE RCN CYMRU

Ewch i dudalennau gwe RCN Cymru i gael y newyddion diweddaraf ar weithgarwch ein hymgyrch, i gyrchu adnoddau, ac i weld yr wybodaeth ddiweddaraf am lefelau staff diogel ar draws y DU.
www.rcn.org.uk/wales/get-involved/safe-and-effective-care

## CYHOEDDIADAU RCN

### ASK, LISTEN, ACT

Canllaw ymarferol ar gyfer holl gynrychiolwyr RCN ar sut i gwestiynu a dylanwadu orau ar ran aelodau yn eich gweithle.
www.rcn.org.uk/wales/get-involved/safe-and-effective-care

### WORKING TOGETHER: BEING ACTIVE ON STAFF SIDE

Er bod eich hyfforddiant fel cynrychiolydd RCN yn cynnig sylfaen wych yn eich dyletswyddau a'r sgiliau amrywiol sydd eu hangen arnoch, mae llawer ohonom yn darganfod ein hunain yn derbyn rôl staff sy'n annisgwyl. O ganlyniad, rydych chi'n cael eich hun yn dysgu'r swydd wrth i chi ei gwneud, ac yn ehangu eich persbectif o'r RCN i dderbyn barn undebau eraill. Nodwyd angen am fwy o gefnogaeth gan y rheiny oedd yn mynychu cynhadledd cynrychiolwyr ar y cyd, ac mae'r ddogfen hon ymhlith y canlyniadau. Fe'i crëwyd gan gynrychiolwyr a staff RCN, sydd wedi gweithio gyda'i gilydd i rannu eu profiad a'u harbenigedd er budd cymuned y cynrychiolwyr ehangach.
www.rcn.org.uk/professional-development/publications/pub-007153

### RAISING CONCERNS: GUIDE FOR RCN REPS

Fel cynrychiolydd RCN, mae gennych ran bwysig i'w chwarae o ran helpu aelodau i godi pryderon am ofal yn eu gweithle. Mae'r dudalen hon yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud hyn.
www.rcn.org.uk/employment-and-pay/raising-concerns/guide-for-rcn-reps

## 1000 O FYWYDAU – GWASANAETH GWELLA

Mae 1000 o Fywydau – Gwasanaeth Gwella yn cefnogi dylunio a chyflwyno rhaglen waith genedlaethol a fydd yn galluogi sefydliadau GIG Cymru i gyfrifo'r nifer cywir o nyrsys sydd eu hangen i ddarparu gofal effeithiol i gleifion. Mae eu gwefan yn darparu diweddariadau ar yr holl ffrydiau gwaith perthnasol: www.1000livesplus.wales.nhs.uk/nurse-staffing

## CANLLAWIAU GWEITHREDOL

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys copïau o'r Canllawiau Statudol (Atodiad 1) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru; • Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (Atodiad 2); • Lefelau Gofal Cymru - Argraffiad 1 (Atodiad 3); • Canllawiau sut i ddefnyddio System Monitro Gofal Iechyd (Atodiad 4);
www.1000livesplus.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1011/Operational%20Guidance%20V2%20%28English%29%20%20April%202019%20final%20for%20dissemination.pdf

Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Royal College of Nursing Wales

# Nodiadau